DARPL

Post Summer 2024

## What do we do in the aftermath of the racist riots?

The summer 2024 news from the UK travelled across the World. Families were deeply fearful, saddened and disgusted. The racist violence and riots were vile. Yes, carried out by a minority, but this didn't happen in a vacuum or come from nowhere. Many people hear racist rhetoric provoking and excusing *every single day.* Within our learning organisations we can wipe that out, can't we? We need to talk about it and act. We can and must address and combat racism in society, in the media, in learning and culture and everywhere. We can and must do this through our collective leadership and learning within education, childcare and playwork in Wales. This social injustice is for all communities to discuss no matter how visibly diverse catchments are. This is a national and global citizenship opportunity to dismantle racism and rebuild an anti-racist society. The future is in our hands.

> 'Educators must realise that there is no neutral position on issues of racial justice'
>
> Jeffrey Garrett

## Actions / support in Anti-Racist Leadership and Practice:

1. Enable time to talk and advocate with your whole learning organisation staff in your first after summer / welcome back / INSET meetings.
2. Prepare to talk and advocate with all learners and communicate clearly with your communities in whole school assemblies, news bulletins and in curriculum.
3. Set out your position as an anti-racist learning organisation from *day one* as you look forward into the new academic year ahead.
4. Re-consider your anti-racist leadership and development planning together with your whole team in this current context.
5. Use the free DARPL professional learning resources, webinars and opportunities on the DARPL virtual campus.
6. If you'd like direct support from Team DARPL, please complete our Enquiry Form

## Practical points for reflection:

- Make no excuses for racist violence. Call it what it is.
- When Muslims are targeted, call it Islamophobia
- Seeking asylum is legal. People Worldwide can ask the UK for help. We are global leaders, aren't we? Migration is wonderful too.
- Openly discuss with staff and learners how society needs to abandon dehumanising words and slogans. These terms are grotesque but not taboo to critically talk about: *'Stop the boats', 'Illegal migrant'' 'We want our country back'.* We can help equip our communities and future generations to reject this language.
- Are your own policies and messages proactive, openly and explicitly welcoming enough? What else can you do?

## Community of Practice:

DARPL works with a range of superb partners and stakeholders APEX, Show Racism the Red Card Wales, Oshun, The Black Curriculum, BAMEed Wales Network, Black Leadership Group, EYST, Race Council Cymru, Children's Commissioner's Office - are all offering spaces to work, talk and resources / opportunities.

Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

DARPL

Ar ôl Haf 2024

## Beth ydyn ni'n ei wneud yn dilyn y terfysgoedd hiliol?

> 'Rhaid i addysgwyr sylweddoli nad oes safbwynt niwtral ar faterion cyfiawnder hiliol'
>
> Jeffrey Garrett

Teithiodd newyddion haf 2024 o'r DU ar draws y Byd. Roedd teuluoedd yn ofnus iawn, yn drist ac wedi'u ffieiddio. Roedd y trais a'r terfysgoedd hiliol yn ffiaidd. Do, cawsant eu cyflawni gan leiafrif, ond ni ddigwyddodd hyn mewn gwactod ac na ddaeth o unman. Mae llawer o bobl yn clywed rhethreg hiliol yn pryfocio ac yn esgusodi *bob dydd.* O fewn ein sefydliadau dysgu gallwn ddileu hynny, na allwn ni? Mae angen inni siarad amdano a gweithredu. Gallwn fynd i'r afael â hiliaeth mewn cymdeithas, yn y cyfryngau, mewn dysg a diwylliant ac ym mhobman, a'i drechu - ac mae'n rhaid i ni wneud hynny. Gallwn wneud hyn trwy ein harweinyddiaeth a'n dysgu ar y cyd o fewn addysg, gofal plant a gwaith chwarae yng Nghymru - ac mae'n rhaid i ni wneud hynny. Mae'r anghyfiawnder cymdeithasol hwn i bob cymuned ei drafod ni waeth pa mor amlwg o amrywiol yw dalgylchoedd. Dyma gyfle dinasyddiaeth genedlaethol a byd-eang i ddatgymalu hiliaeth ac ailadeiladu cymdeithas wrth-hiliaeth. Mae'r dyfodol yn ein dwylo ni.

## Camau gweithredu / cymorth mewn Arweinyddiaeth ac Arfer Gwrth-hiliol:

7. Caniatewch amser i siarad ac eirioli gyda staff eich sefydliad dysgu cyfan yn eich cyfarfodydd cyntaf ar ôl yr haf / croeso yn ôl / HMS.
8. Paratowch i siarad ac eirioli gyda phob dysgwr a chyfathrebu'n glir â'ch cymunedau mewn gwasanaethau ysgol gyfan, bwletinau newyddion ac yn y cwricwlwm.
9. Nodwch eich safbwynt fel sefydliad dysgu gwrth-hiliaeth o'r *diwrnod cyntaf* wrth i chi edrych ymlaen at y flwyddyn academaidd newydd sydd i ddod.
10. Ailystyried eich arweinyddiaeth a chynllunio datblygiad gwrth-hiliaeth ynghyd â'ch tîm cyfan yn y cyd-destun presennol hwn.
11. Defnyddiwch yr adnoddau dysgu proffesiynol DARPL rhad ac am ddim, gweminarau a chyfleoedd ar gampws rhithwir DARPL.
12. Os hoffech gael cymorth uniongyrchol gan Dîm DARPL, llenwch ein Ffurflen Ymholiad.

### Pwyntiau ymarferol i'w hystyried:

- Peidiwch â gwneud unrhyw esgusodion am drais hiliol. Rhowch yr enw cywir iddo.
- Pan fydd Mwslimiaid yn cael eu targedu, galwch ef yn Islamoffobia.
- Mae ceisio lloches yn gyfreithlon. Gall pobl ledled y byd ofyn i'r DU am help. Rydym yn arweinwyr byd-eang, onid ydym? Mae mudo yn wych hefyd.
- Trafodwch yn agored gyda staff a dysgwyr sut mae angen i gymdeithas gefnu ar eiriau a sloganau dad-ddyneiddiol. Mae'r termau hyn yn grotesg ond nid yw'n tabŵ i siarad yn feirniadol amdanynt: *'Stopiwch y cychod', 'Mudwr anghyfreithlon' 'Rydym eisiau ein gwlad yn ôl'.* Gallwn helpu i arfogi ein cymunedau a chenedlaethau'r dyfodol i ymwrthod â'r iaith hon.
- A yw eich polisïau a'ch negeseuon eich hun yn rhagweithiol, ac yn ddigon agored ac amlwg o groesawgar? Beth arall allwch chi ei wneud?

### Cymuned Ymarfer:

Mae DARPL yn gweithio gydag ystod o bartneriaid ac mae'r rhanddeiliaid gwych APEX, Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth Cymru, Oshun, Y Cwricwlwm Du, Rhwydwaith BAMEed Cymru, Grŵp Arwain Pobl Dduon, EYST, Cyngor Hil Cymru, Swyddfa’r Comisiynydd Plant - i gyd yn cynnig lleoedd i weithio, sgwrsio ac adnoddau/cyfleoedd.

Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government